

Llais Llandyrnog Voice

✉ llandyrnognews@gmail.com 🐦 [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Mai 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 8

Hwyl fawr, a diolch, Dan!

Cerddoriaeth yn llefaru



Roedd dydd Sadwrn, 23 Ebrill yn ddiwrnod trist iawn i Landyrnog pan gaeodd Dan Jones ddrws ei siop am y tro ola. Yn ogystal â gwerthu cynnyrch ardderchog, mae wedi cyflogi pobl leol, wedi bod yn ganolfan i'r gymuned – yn arddangos posteri, gwerthu tocynnau, ac wrth gwrs, yn fan lle mae pobl yn gallu cael copi o'r *Llais*, ac wedi bod yn hael iawn wrth gefnogi digwyddiadau elusennol yn y pentref.

Ond y newyddion gwych ydy bod Daniel Jones a'i Feibion, Cigydd Teuluol, ar restr fer y categori Gwobr Cymuned Leol yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru 2022. Mae'r categori yma'n cydnabod y busnesau Cymreig hynny sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w cymuned leol. Er bod cwmni Dan wedi dod i ben, mae'n dal i fod yn gymwys i gystadlu.

Dywedodd Dan, 'Fydden ni byth ar restr for y wobwr yma oni bai am ein cwsmeriaid gwych sy'n ein cefnogi ni bob wythnos. Mae hyn yn eisin ar gacen y chwe blynedd yn y siop. Diolch yn fawr i bawb.'

Pob dymuniad da i Dan yn ei swydd newydd gyda Stad y Rhug.

Roedd y cyngerdd ar gyfer Wcrain yn Neuadd y Pentref, nos Sadwrn 9 Ebrill, yn llwyddiant aruthrol. Codwyd £2615 tuag at apêl Wcrain Cronfa Achub y Plant, a hynny gwta pedair wythnos ar ôl i apêl yn y pentre godi £2400 tuag at elusennau sy'n gweithio yn y wlad. Cafodd Mason a Lloyd, meibion Heather Powell, y syniad wrth weld lluniau o blant yn diodde yn Wcrain ac roedden nhw am wneud rhywbeth i'w helpu.

Roedd hi'n noson wych, yn llawn doniau cerddorol o'r ardal. Mae Heather yn diolch i bawb a fu'n rhan o'r achlysur arbennig iawn ac i bawb a ddaeth i gefnogi.

Mason a Lloyd Powell, Gwenan Mars Lloyd, Nest Emlyn Lloyd, Eliza a Taylor Chown, Beca Evans, Daniel Lloyd ac Ysgol Bryn Clwyd oedd y rhai lleol a fu'n perfformio.



Mason, un o'r rhai a oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson, gyda'i diwtor Matt Deacon

Wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, cofiwch roi cyfraniad yn y bocs casglu, os gwelwch yn dda, neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthwr.

Pytiau newyddion y pentre

Llongyfarchiadau i...

... John a Shân Ashton a ddathlodd eu pen blwydd priodas arian ddechrau mis Ebrill;

... Hazel Wright ar ddod yn hen-fodryb i Safiya Wright, a anwyd 30 Ionawr i Guillaume a Sina; ac yn hen-fodryb i Eleanor, merch Adele a Zach Wright Fitter a anwyd 16 Ebrill;

... Karen a Gerry Connell sy'n daid a nain i Penelope, merch Pete ac Ann yn Glasgow.

Cydymdeimlwn yn ddwys â ...

...Caroline Langford Jones a'r teulu ar golli Gwyn. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano ar ddechrau un o gemau pêl-droed Llandyrnog;

...Siwan Hulme, Pentrefelin a'r teulu, ar golli ei thaid, Mr John Rees, Caerwys;

... Pete, Andy, Lynn, Nigel a Garry ar golli eu chwaer, Ann Watts. Roedd Ann yn byw yn Llundain ers talwm iawn ond roedd hi'n dal i gadw cysylltiad â'r pentre. Roedd hi'n ferch i'r diweddar Betty Evans (Betty Bach);

... Lynn Jones, Berth Glyd, ar golli ei mam a oedd yn byw Lerpwl.

Dymuniadau da ...

... i Nia, Dre Goch ar achlysur pen blwydd 'arbennig' yn ddiweddar;

... Alex a Betty Sinclair, Maes Clwyd, sydd wedi symud i Awel y Dyffryn, Dinbych;

... Mrs Joan Lewis a Mrs Ingrid Colclough, y ddwy heb fod yn hwylus yn ddiweddar – brysiwch wella;

... i Grace Jones, sydd yn yr ysbyty.

Costau hurio Neuadd y Pentre

Tan ddiwedd mis Medi 2022, bydd y neuadd a'r gegin ar gael i'w llogi am bris arbennig o £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl leol sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Bydd disgwyl i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw.

I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.

Oedfaon mis Mai

Capel y Dyffryn

1 Mai	9.45	Trefniant lleol
8 Mai	11.00	Parch. Andras Iago
22 Mai	9.45	Parch. Aneurin Owen
29 Mai	9.45	Parch. Andras Iago

St Tyrnog

1 Mai	11.15	Cymun Bendigaid
8 Mai	11.15	Boreol weddi
15 Mai	11.15	Cymun Bendigaid
22 Mai	11.15	Boreol weddi
29 Mai	11.15	Cymun Bendigaid

Ni fydd gwasanaethau yn eglwys St Cwyfan yn ystod y mis

Llan Llanast

8 Mai, 15.30–17.00 yn Neuadd y Pentre

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at Gwn Tywys – codwyd £540. Unwaith eto mae haelioni'r pentrefwyr yn syfrdanol!

Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918

For all farmyard & agricultural accessories & building supplies

- ☞ Tanalised timber
- ☞ Concrete posts
- ☞ Panel fencing
- ☞ Water pipe fittings
- ☞ Water tanks
- ☞ Sand
- ☞ Cement
- ☞ Concrete blocks

Yr Ystafelloedd Coco

- 7 Mai Etholiad
- 17 Mai Clwb Llyfrau 10am
- 18 Mai Tuesday Club, 2pm
- 24 Mai Pwyllgor Llais Llandyrnog, 7 pm
- 31 Mai Clwb Llyfrau 10am

Neuadd y Pentre

- 3 Mai Sefydliad y Merched 7pm
- 7 Mai Grwp creffttau 10am
- 9 Mai Brownies, 5.70-7pm
- 11 Mai Undeb y Mamau 2pm (yr ystafell waelod)
- 16 Mai Brownies, 5.70-7pm
- 18 Mai Y Gymdeithas Hanes, 7.30
- 21 Mai Bore coffi tuag at Gymorth Cristnogol, 10am
- 23 Mai Brownies, 5.70-7pm
- 29 May Digwyddiad Cristnogol Wythnos Eisteddfod yr Urdd, 4-8pm

Tuesday Club

Yng nghyfarfod mis Ebrill, daeth tair o weithwyr MHC, Llangwyfan atom i sôn am eu gwaith yno. Rhoddodd Rachel Croft-Jones, arweinydd gweithgareddau, ychydig o hanes y lle ac amlinelliad o'u gwaith. Mae MHC yn cefnogi pobl 18-65 oed ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl ac ymddygiad sy'n herio, a rhai sy'n byw gydag awtistiaeth.

Rhannodd Gemma MacCarter, sydd hefyd yn arweinydd gweithgareddau, luniau o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yno, yn eu plith creffttau, coginio, chwaraeon, garddio, pwytho. Maen nhw wrthi'n creu calendr ar gyfer 2023, ac mae croeso i unrhyw un anfon llun i'w gynnwys.

Dangosodd Bronwen Hignett, a oedd yn cynrychioli'r therapyddion lleferydd ac iaith, sut maen nhw'n helpu'r trigolion i gyfathrebu.

Roedd yn gyflwyniad diddorol iawn a diolchwyd i'r tair am roi eu hamser i'r clwb.

Cafwyd lluniaeth ysgafn a thynnwyd y raffl. Atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf 18 Mai. Mynegodd Glenys longyfarchiadau'r aelodau i Anwen a Bryn ar ddod yn daid a mam-gu i Rhiannon, merch Manon a James.

Dymuna swyddogion Pwyllgor Apêl yr Urdd Llandyrnog, Llangwyfan ac Aberchwiler ddiolch o galon am y gefnogaeth hael i'r Bore Coffi yn neuadd y pentref ar Ebrill 23ain. Gwnaed elw o £420 sy'n golygu bod yr ardal wedi codi bron £8500 at yr

**Eisteddfod. Gwych!!
Edrychwn ymlaen at
ddathlu canmlwyddiant
yr Urdd ar gaeau
Fferm Kilford,
31 Mai-4 Mehefin.**



Bore Coffi

Neuadd y Pentre

Dydd Sadwrn, 21 Mai, 10-11.30

Elw at Cymorth Cristnogol

Derbynnir rhoddion tuag at y stondinau cynnyrch cartref

Croeso cynnes i bawb



Gemma, Bronwen and Rachel from MHC

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener

9am-12pm, 2pm-5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am-12.30

01824 790310

Cynghrair pêl-droed yr haf Llandyrnog

Dechreuodd cynghrair pêl-droed yr haf yn Nyffryn Clwyd yn 1926, a heblaw am ysbaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mae wedi parhau hyd heddiw. Er nad yw Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn ei chydabod yn swyddogol, mae Cynghrair yr Haf wedi rhoi cyfle i filoedd o ddynion ifanc chwarae pêl-droed i dîm eu pentref lleol.

Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng y gynghrair hon a chynghreiriau eraill yw un o'i phrif reolau, sef bod y chwaraewr yn gorfod byw o fewn pellter penodol i'r clwb. Mae cynghreiriau tebyg eraill wedi dod ac wedi mynd ond doedd gan yr un ohonyn nhw y rheol honno. Credir mai'r rheol hon sy'n gyfrifol am oes hir cynghrair Llandyrnog, er ei bod hi'n creu problemau ac mae ambell bentref wedi gorfod cyfuno i oroesi.

Canol mis Ebrill hyd at ddiwedd mis Gorffennaf yw cyfnod y Gynghrair, a'r gemau'n cael eu chwarae ar nos Lun a nos Iau. Ar hyn o bryd mae un tîm ar ddeg yn y gynghrair, a phob un yn Nyffryn Clwyd heblaw am Gaerwys ac Ysceifiog yn Sir y Fflint.

Hanes tîm Llandyrnog

Mae tîm Llandyrnog bron yn gant oed gan ei fod yn o dimau gwreiddiol y gynghrair. Dyma'r clwb mwyaf llwyddiannus yn hanes y gynghrair, fel y gwelwch wrth y canlyniadau hyn:

Pencampwyr – 1950, 1954, 1957, 1964, 1977, 1978, 1979, 1980, 1981, 1982, 1983,

1984, 1985, 1987, 1991, 2000, 2011, 2015
Enillwyr y Darian – 1954, 1966, 1976, 1977, 1979, 1980, 1981, 1982, 1984, 1985, 1986, 1987, 1991, 1992, 1994, 2011, 2013, 2019.

Dechreuodd tymor 2022 nos Fawrth 19 Ebrill yn dilyn seibiant o ddwy flynedd oherwydd pandemig COVID-19.

Canlyniadau

19 Ebrill: Llanfair DC 2 – 4 Llandyrnog

Sgorwyr: Josh Jones (2), Harry Roberts, Craig Jones

21 Ebrill: Llandyrnog 4 – 3 Clawddnewydd

Sgorwyr: Craig Jones, Tom Hughes, Luke Humphries, Morgan Jones

25 Ebrill: Cefn 4 – Llandyrnog 1

Sgorwr: Josh Jones

28 Ebrill: Llandyrnog 0 – Llangynhafal 1

Gemau mis Mai y gic gyntaf am 7

Iau 5 Mai **Llandyrnog** v Ysceifiog

Mon 9 Mai Nantglyn v **Llandyrnog**

Iau 12 Mai Rhewl v **Llandyrnog**

Mon 16 Mai **Llandyrnog** v Henllan

(y gic gyntaf am 7.30pm)

Iau 19 Mai **Llandyrnog** v Trefnant

Mon 23 Mai Llanrhaeadr v **Llandyrnog**

Iau 26 Mai **Llandyrnog** v Llanfair DC

Mon 30 Mai Clawddnewydd v **Llandyrnog**

Mer 1 Meh **Llandyrnog** v Cefn



(Llun o gyfrif Twitter tîm Cynghrair yr Haf Llandyrnog)



Hanesion Hazel

Mae 'na hen ddihareb Seisnig (Dr Robert Fuller, 1732) '*Ne'er cast a clout till May is out*', er, falle ei bod wedi bodoli ar lafar cyn hynny. Mae'n atgoffa rhywun i beidio â bod yn rhy barod i gael gwared â dillad gaeaf neu festiau thermol, er, gyda chostau gwresogi'n cynyddu, falle bydd rhai ohonon ni'n dal i'w gwisgo am sbel!

Dw i'n teimlo mai mis Mai ydi'r amser prysuraf yn yr ardd – popeth ag angen sylw, ac mi ryden ni'n teimlo'n well wrth i'r dyddie ymestyn. Mae 'na egni o'n cwmpas ni wrth i fywyd newydd flaguro; i mi mae hwn yn adeg trawsblannu planhigion tomatos (*Alicante*), oedd wedi eu hau ym mis Chwefror yn y tŷ gwydr. Erbyn diwedd yr haf, â'r ffrwythau wedi aeddfedu, mi fydda i'n eu coginio i wneud piwrî cyfoethog, a'i rewi mewn potiau marjarîn i'w ddefnyddio mewn stiwiâu, *spaghetti bolognese* ayb.

Wrth i'r pridd gynhesu, mae'n amser plannu llysiau – amser poenus yn fy ngardd! Rhaid ffensio'r ardd gyda ffens dros dro er mwyn atal y cŵn hurt rhag rhedeg drwy'r planhigion ifanc, atal Penelope'r iâr a'i ffrindiau rhag crafu'r tir ac atal y cwningod sy'n bwyta unrhyw beth rydw i'n ei blannu – er dim y seleri!

All ffensys ddim atal chwyn rhag tyfu! Maen nhw'n tyfu'n berffaith dda lle nad ydech chi eisio iddyn nhw 'neud. Mae defnyddio'r fforch chwynnu'n rheolaidd pan mae'r planhigion yn fychan yn gwneud y gwaith yn llawer iawn haws na'u gadael i dyfu'n bla dros y gwely llysiau. Mae croeso i rai mathau o 'chwyn'. Ers i fy mam, flynyddoedd yn ôl, wasgaru rhai hadau pabi melyn, mae 'na wledd o flodau melyn golau yn yr ardd bob blwyddyn. Mae'r pabi Cymreig (melyn) (*Papaver cambricum*) yn ffefryn mewn gardd bwthyn, ond mae ganddo ei feddwl ei hun ac mae'n tyfu ym mhob twll a

chornel. Mae'r codennau'n llawn o filoedd o hadau bychain du sy'n clecian ac yn chwalu – fel arfer wrth i chi gyffwrdd â nhw wrth fynd heibio. Bydd y cynnwys yn chwythu ar draws y lle er mwyn dechre'r broses unwaith eto'r flwyddyn nesa'.

Bydd llawer ohonoch chi'n plannu prif gnwd o datws – prif fwyd am flynyddoedd ar ein tyddyn ni. Arferai fy nhad ofalu bod digon o le i'r tatws. Byddai'r tir yn cael trwch o dail ceffyl wedi pydru'n dda, ei balu â pheiriant, agor rhychau, rhoi mwy o dail, a gosod tatws â blaen blagur, rhyw 15 modfedd/37 cm oddi wrth ei gilydd (roedd yn defnyddio darn o bren gyda'r mesuriadau cywir, a gwae chi os oedd yn methu dod o hyd iddo!). Beth bynnag, rydw i wedi gorfod ailfeddwl, yn bennaf oherwydd y gwaith caled sy' gyda'r dull hwn o dyfu tatws. Felly dw i wedi plannu dwy goeden afalau draddodiadol, Prydferthwch Rhyl (afal melys) a Gwell na Mil (afal bwyta), wedi eu prynu o Feithrinfa Sturrock & Sons (Bangor), lle maen nhw wedi bod yn tyfu coed ffrwythau ers dros 40 mlynedd. O dan y coed, rydw i wedi hau hadau blodau gwyllt.

Mae'r gwenoliaid wedi dychwelyd, er eu bod wedi drysu braidd oherwydd y to a'r drysau newydd ar y garej, sy heb dylle iddyn nhw fynd a dod. Buan y daethon nhw o hyd i'w hen nythod yn y stabal, ac maen nhw wrthi fel lladd nadroedd yn ailadeiladu, yn plymio mewn ac allan uwchben pen Bob y merlyn – yn flin am ei fod yn amharu ar eu llwybr – sut mae o'n meiddio gwneud y fath beth?! Ond rhaid iddyn nhw fod yn wylidwrus, gan fod y bwnc-ath wedi dod i eistedd ar dop y sgaffaldie – man perffaith iddo gael golwg ar bethau. Ond dim ond am 'chydig eto diolch byth, gan eu bod yn cael eu tynnu i lawr yn fuan. Cyn bo hir byddwch yn gallu gweld y to a'r simneiau wedi eu hatgyweirio, â phedair simne unionsyth, perffaith yn addurno'r bwthyn!

Beth i'w ddisgwyl ym mis Mai? – gorthyfail (*cow parsley*) yn glystyrau ar ymyl y ffordd – hoff fwyd Bob y merlyn wrth i ni linc-di-loncian ar hyd y lonydd.

Hazel

Tri lle – Bryn Davies

Dyma rannu efo chi dri lle wnaeth argraff go ddofn arna i yn ystod fy nhaith gerdded o gwmpas Ynys Môn – taith o 140 milltir i gyd. Dydi Ynys Môn 'mond rhyw awr i ffwrdd, ac felly, efo picnic, tancied o betrol, sgidie go gry' a dau fap OS (*Explorer 262 a 263*), a dyna ni. Mae pawb yn dweud mai'r ffordd swyddogol o ddilyn llwybr yr arfordir yn Ynys Môn ydi dechre yn Nghaergybi a mynd efo'r cloc. Es i o Borthaethwy, yn groes i'r cloc, a gofynnodd y ddynes tacsï roddodd lifft i mi yn ôl i'r car pan nad oedd bÿs ar gael, pam 'mod i'n mynd o chwith! Ta waeth, ffwrdd a ni!

Gwaith Brics Porthwen

Ar ôl dipyn o ddringo o Foelfre, a chyn cyrraedd Cemaes, roedd 'na olygfa go anhygoel – Gwaith Brics Porthwen, a adeiladwyd yn Oes Victoria gan ddyn o'r enw Charles Tidy. Roedd dwy chwarel cwartsit (carreg wen) yn cael eu cloddio, a rheiliau tram yn rhedeg i'r gwaith brics. Gellir gweld olion y gwaith yn ddigon hawdd – y tÿ malu, y sied fowldio, y siediau sychu a'r odybau siâp cwch gwenyn. Gellir gweld be' oedd pwrpas y rhan fwyaf o'r adeiladau hyd heddiw.



Brics tân oedd yn cael eu cynhyrchu yno o'r cwartsit caled, a'u cludo wedyn ar longau o Borthladd Amlwch ar gyfer leinio ffwrneisi gwneud dur. Does neb yn siŵr pryd ddaeth y cynhyrchu i ben – rhywle rhwng 1920 a 1949 yn ôl y sôn.

Yn naturiol, mi ddois i o gyfeiriad Moelfre.

Ond, os ewch chi efo car ac edrych am arwydd Llanelian, mae 'na le parcio yno, a chyfle i gael taith gerdded fer ac iachus tuag at Drwyn Eilian. Mi allwch chi weld y Gwaith Brics yn is i lawr ar y dde. Cofiwch fynd i ben Trwyn Eilian i weld y golygfeydd syfrdanol ar hyd yr arfordir garw a pheryglus yma.

Eglwys Llanbadrig – yr Eglwys hynaf yng Nghymru, yn ôl y sôn



Mae enwau'r traethau bach roeddwn i'n mynd heibio iddyn nhw yn hyfryd, ac mae angen eu diogelu ar bob cyfri' – rhwng Amlwch a Chemaes, mi gewch chi Borth Llanlleiana, Porth Adfan a Phorth Cynfor. Ta waeth, o'm blaen, mi weles i eglwys fechan hardd, ac er 'mod i'n brin o amser, es amdani! Roedd drws yr eglwys ar agor, a rhywsut, wrth gerdded i mewn, roedd fel petai'r adeilad yn lapio'n dynn amdana i – teimlad braf o heddwch a llonyddwch – reit emosiynol.

Yn ôl yr hanes, yn 440 OC, roedd esgob Celt-aid o'r enw Padrig yn hwylio o Ynys Iona i Iwerddon pan gafodd ei longdryllio ar arfordir Ynys Môn. Llwyddodd i ddod i'r lan ar ynys fach a elwir erbyn hyn yn Ynys Padrig, a chael lloches mewn ogof fechan â ffynnon gerllaw. Er coffa am ei ddihangfa lwcus, sefydlodd Eglwys Sant Padrig. Mae'r ogof yn dal yno, ac mae plac yn nodi'r hanes ar y creigiau uwchben – mae'n rhy beryg a serth i fynd at yr ogof erbyn hyn.

Tri lle: parhad

Adeiladwyd eglwys o garreg yn y 12fed ganrif yn lle'r hen eglwys bren, syml. Yn y 14eg ganrif cafodd ei hailadeiladu eto, a dyma'r un a welwn ni heddiw.

Yr hyn sy'n gwneud Eglwys Sant Padrig yn unigryw – ar wahân i'r chwedl a'i statws fel yr eglwys hynaf yng Nghymru – ydi'r adnewyddu ddigwyddodd yn 1884. Roedd y 3ydd Arglwydd Stanley o Alderley wedi priodi merch o Sbaen, un o'r Mwriaid, a thrôdd o hefyd at y grefydd Islamaidd. Rhoddodd gyfraniad hael at adnewyddu tu mewn yr Eglwys er mwyn adlewyrchu ei ffydd newydd. Felly wrth i chi gerdded i mewn, mi welwch chi cymaint o wahaniaeth dramatig sydd yno rhwng y waliau cerrig syml y tu allan a'r dull Mwraidd y tu mewn, lle mae 'na deils glas, ffenestri gwydrog glas, a nodweddion steil Arabaidd.



Mae'n hawdd mynd yno efo car ar yr A5025 – trowch tuag at Lanbadrig a daw'r ffordd gul â chi'n syth at yr eglwys.

Morglawdd Caergybi

Wrth i Manon (fy nghydymaith hoff am y diwrnod), a fi gerdded dros Fynydd Caergybi, mi gawson ni hoe fach i weld be welen ni. I ddeud y gwir, doeddwn i ddim wedi cymryd llawer o sylw o'r morglawdd cyn hyn – dim ond mewn un man arbennig y gallwch chi edrych arni'n agos, a theimlo ar eich calon bod angen gwybod sut wnaethon nhw ei adeiladu! Dyma 'chydig o'r hanes!

Dechreuwyd gwaith ar y morglawdd yn 1848

drwy gario blociau 10 tunnell o Fynydd Caergybi i greu'r wal allanol. Gosodwyd y rhain ar sylfeini gwastad roedd deifwyr mewn llong danfor siâp cloch wedi eu lefelu – pob un â'i gaib a'i raw. Buont hefyd yn ffrwydro'r graig dan y dŵr – efo powdwr gwn wedi'i selio mewn peips tun yn dal dŵr, er mwyn cael y sylfaen yn wastad. Meddyliwch am y peth!! Gosodwyd trac i lein fach gul, i gario'r cerrig nadd yma bob yn dipyn, o Fynydd Caergybi i ddiwedd y morglawdd – tua 1.7 milltir allan i'r môr. Bu 1300 yn gweithio ar y prosiect ar unrhyw gyfnod, ac mi gymerodd 28 mlynedd i'w orffen. Ffaith drist ydi bod 40 o ddynion wedi colli eu bywydau wrth ei adeiladu. Agorwyd y morglawdd gan Albert Edward, Tywysog Cymru ar y pryd, ar 19 Awst, 1873.

A do, mi gerddodd Manon a fi i'w ben – 1.7 milltir i fod yn fanwl! Ac oedd, mi roedd y tywydd yn arw iawn ar y pryd!



I orffen, rhaid i mi rannu hyn efo chi. Roedd dwy fferi'n brwydro'u ffordd drwy'r niwl a'r tonnau anferthol. Roedd y *Stena* yn hwylio'n weddol ddiraferth, ond roedd fferi dipyn llai yn cael amser go anodd ac yn gwegian i fyny ac i lawr ac i'r ochor. 'Gobeithio bod Wendy ar ei ffordd adre o Iwerddon ar y *Stena* fawr a dim ar y fferi fach werdd a gwyn", medde fi wrth Manon fel hanner jôc! Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach mi ges i sgwrs efo Wendy, a dywedodd bod dod nôl ar y fferi fach werdd a gwyn DDIM wedi bod yn un o'i phrofiadau gorau erioed!!

Ysgol Bryn Clwyd



Pawb yn canolbwyntio ar eu rhifau yn y noson bingo!

Mae hi wedi bod yn adeg brysur iawn yn yr ysgol yn ddiweddar...

Bu'r plant yn perfformio yn y cyngerdd hynod lwyddiannus i godi arian at bobl Wcráin. Roedd hyn yn dipyn o gamp i'r plant gan mai dyma'u perfformiad cyntaf ar y llwyfan mawr o flaen cynulleidfa ers cyn dechrau'r cyfnod COVID.



Fe gawson ni lot o hwyl yn y noson bingo Pasg, ac fe godwyd £300 tuag at y plant. Mae'r ysgol yn diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth ac i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu noson wych.

Fe gafodd Miss Birkett a dosbarth y babanod gryn hwyl ar wasanaeth y Pasg eleni. Roedd hi'n wych gweld eu hyder yn siarad a chanu o flaen cynulleidfa. Cafodd y plant i gyd hwyl yn yr helfa wyau Pasg ddydd Gwener ola'r tymor.

Yn ystod wythnosau olaf y tymor cawsom ymweliad gan PC Llinos, ein Plismon Cymunedol a ddaeth i weithio gyda phlant Bl. 3 a 4 am gadw'n ddiogel ar-lein, a Bl. 5 a 6 am gyffuriau a phwysau gan gyfoedion.

Mae'r dosbarth iau wedi bod yn dysgu am draddodiadau'r Pasg yn ogystal ag edrych ar draddodiadau'r Pasg mewn gwahanol wledydd.

Aeth y babanod yn ôl mewn amser i brofi bywyd mewn ysgol oes Victoria, a chafodd y feithrinfa brynhawn cyffrous yn ymweld â Phalas Buckingham, gan ddysgu am y Frenhines Elizabeth II a mwynhau te parti.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

James Davies, AS Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

Ymweld ag Eisteddfod yr Urdd

Llwyfan i bawb

Ni fydd rhagbrofion i'r rheiny sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn Ninbych er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y profiad o gystadlu ar brif lwyfan yr Urdd. Ac o ganlyniad, nid dim ond un Pafiliwn fydd ar faes yr Eisteddfod, ond tri.

Tocynnau mynediad i'r Maes yn rhad ac am ddim – bellach ar gael i'w harchebu

Daeth cadarnhad ym mis Rhagfyr 2021 bod yr Urdd yn derbyn £527,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru, er mwyn agor y drysau a chynnig mynediad am ddim i bawb i Eisteddfod yr Urdd 2022, ym mlwyddyn canmlwyddiant y mudiad. Mae tocynnau'r wyl bellach ar gael i'w harchebu drwy wefan Eisteddfod yr Urdd (www.urdd.cymru/tocynnau) ac eleni maent yn cynnig mwy nag erioed gyda mynediad i'r cystadlu, Gŵyl Triban, sioeau a holl adloniant y Maes yn rhan o'r tocyn.

Gŵyl Triban – aduniad mwya'r ganrif

Am y tro cyntaf erioed, ac i ddathlu'r gorau o gerddoriaeth a diwylliant cyfoes Cymru,



cynhelir gŵyl o fewn gŵyl ar Faes Eisteddfod yr Urdd eleni. Dyma fydd 'aduniad mwya'f y ganrif' gyda gwahoddiad i holl aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r Urdd ymuno yn y dathlu. Mi fydd mynediad i Triban (2–4 Mehefin) yn rhad ac am ddim ac yn gynwysedig yn y tocyn i faes yr Eisteddfod. Bydd yr wyl yn cynnig gwledd o fwyd a diod, cyfle i hel atgofion, ynghyd â pherfformiadau gan Eden, Gwilym, Eädyth, Tara Bandito, N'Famady Kouyaté a llawer mwy.

Dymunwn bob llwyddiant i'r Eisteddfod wrth ddathlu'r canmlwyddiant.



Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week



Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon



Tacsi a Hurio Preifat



rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffeslynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

Atgofion am Lerpwl adeg y rhyfel

10 mlwydd oed oedd Joyce Catteroll, Fron Haul, pan gychwynnodd y rhyfel. Gwrthododd gynnig i symud o Lerpwl a bod yn faciwi – arhosodd yn Lerpwl drwy gydol y rhyfel. Adeiladwyd lloches Anderson yng ngardd y teulu gyda help ffrindiau a chymdogion. Roedd y ci'n adnabod sŵn seiren cyrch awyr, a fo oedd y cynta' i redeg i mewn i'r lloches. Mi wnaeth ei thad y lle'n gyfforddus iawn yno – roedd 'na olau batris a chyflenwad bwyd ganddyn nhw. Roedden nhw'n cysgu yno bob nos, yn codi yn y bore ac yn cario mlaen â'u bywydau fel arfer. Roedd tad Joyce yn rhy hen i ymuno â'r fyddin, ond roedd o'n cadw'i hun yn brysur yn ystod y rhyfel drwy ddanfôn nwyddau neu gyrru bysys â Charcharorion Rhyfel i wersylloedd. Roedd yn medru troi ei law at unrhyw beth ac yn trwsio ceir a radios pobl eraill. Roedd hi'n cofio gweld dau neu dri o geir pobl eraill wedi eu parcio'n barhaus o flaen y tŷ, er doedden nhw eu hunain ddim yn berchen car!

Un diwrnod roedd Joyce yn chwarae tu allan ac wedi crwydro gryn bellter o'i chartref, pan aeth y seiren i ffwrdd. Dyma wraig yn galw ar y plant i ddod oddi ar y stryd ac i mewn i'w lloches cyrch awyr hi. Dyddiau'n ddiweddarach, fe aeth Joyce i chwarae yn yr un stryd, a chanfod bod bom wedi disgyn ar dŷ'r wraig honno gan ladd y teulu. Dyna sut roedd bywyd yr adeg hynny – roedd rhaid dal i fynd er gwaetha' popeth.

Byddai mam Joyce yn mynd i warysau i ddewis gwahanol ddilladau a'u dosbarthu i gartrefi, a chasglu swllt neu fwy'r wythnos, a byddai Joyce yn mynd efo hi. Daeth hyn i ben yn y diwedd gan fod ei mam yn ofni y byddai'r seirenau'n canu pan fydden nhw ymhell o adre.

Âi o gwmpas y lle ar ei beic i gasglu'r dognau. Pe byddech chi ar dram a'r seiren yn canu, byddai'r trams yn stopio, a byddai'n rhaid i chi gerdded – gallai hyn fod filltiroedd o'ch cartref os oeddech chi yn y dref.

Roedd Joyce wedi gweithio'n galed i gasglu ei phres poced ac fe ddefnyddiodd beth ohono i brynu 'chydig o ieir. Pan oedd un ohonyn nhw'n sâl, roedd chwisgi'n help iddi wella! Ond wrth i'r ieir yn yr iard gefn dyfu'n hŷn, roedden nhw'n mynd yn fwy milain ac yn ymosod ar y teulu. Felly, dyma'i thad yn cael gwared â nhw



Y ffrwydryn tir oedd heb ffrwydro

a'u rhoi am ddim i'w lladd a'u rhostio. Allai'r teulu mo'u bwyta, er bod cig mor brin roedden nhw wedi bod yn anifeiliaid anwes iddyn nhw!! Un bore, ar ôl noson o gyrchoedd awyr diddiwedd, clywodd hi a'i chyd-ddisgyblion

y newyddion fod eu hysgol (Ysgol Roscoe, Ffordd Ballantyn, West Derby) wedi ei bomio. Roedd dau ffrwydryn tir wedi ei tharo ond doedd un ohonyn nhw ddim wedi ffrwydro. Aeth pawb i weld y lle a sylweddoli nad oedd rhaid iddyn nhw fynd i'r ysgol o hynny allan! Ond, doedd hi ddim mor syml â hynny, gan fod gwersi wedi eu trefnu ar gyfer 5 neu 6 o blant



Joyce a'i chyfaill bore oes, Iris Oats

Atgofion am Lerpwl: parhad

mewn tai, a'r athro'n mynd o dŷ i dŷ yn rhoi rhai gwersi sylfaenol mewn Mathemateg a Saesneg bob rhyw 'chydig o ddyddie.

Sylweddolodd rhieni Joyce nad oedd hyn yn foddhaol a llwyddon nhw i gael lle iddi mewn coleg masnach, er ei bod yn rhy ifanc, i gael addysg ehangach a dysgu llaw fer a theipio. Yn dilyn hyn cafodd swydd yn y ddinas, ond doedd hi ddim yn mwynhau'r gwaith ac yn ei weld yn ddiflas. Ei nod oedd cael gwaith ym myd ffasiwn (roedd gan y bobl freuddwydion a dyheadau yn ystod y rhyfel hefyd!). Wrth lwc, gwelodd hysbyseb am swydd rheolwraig mewn siop hetiau ac ategolion. Bu'r fenter yn un llwyddiannus iawn ac roedd wrth ei bodd gyda'r gwaith. Enw'r siop oedd Miss Lena's yn Anfield. Yn ffodus, ni fomiwyd y siop, ac roedd pobl yn dal i gael pleser wrth brynu hetiau a menig er gwaetha'r rhyfel.

Cyfarfu Joyce â Bill, ei gŵr, yn ystod y rhyfel mewn dawns neuadd eglwys.

Mae atgofion Joyce yn rhan o'r llyfr y bydd y Gymdeithas Hanes Lleol yn ei gyhoeddi yn 2025 i nodi 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. Os hoffech chi rannu eich atgofion, cysylltwch â'r gymdeithas drwy anfon e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.

Y Gymdeithas Hanes Lleol

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan nos Fercher, 18 Mai yn Neuadd y Pentre am 7.30. Bydd Dr Shaun Evans yn sgwrsio am 'Ystadau yng Nghymru: eu hanes a'u harwyddocâd' (bydd yn cynnwys Sir Ddinbych a gogledd ddwyrain Cymru).

Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ym Mhrifysgol Bangor yw Shaun.

Cafodd ei fagu ar stad Mostyn yn Sir y Fflint, ble mae ei dad yn goedwigwr. Astudiodd Shaun Hanes ym Mhrifysgol Efrog cyn dechrau project ymchwil ar gyfer doethuriaeth ar deulu a stad Mostyn yn yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg.

Croeso cynnes i bawb.



Roedd Llan Llanast mis Ebrill yn cyd-daro â Sul y Blodau, felly fe ddysgon ni am Iesu yn mynd i mewn i Jerwsalem ar asyn, a'r bobl

yn chwifio dail palmwydd ac yn gweiddi 'Hosanna!'. Fe wnaethon ni goeden palmwydd anferth a rhai bach wedi'u gwneud o ffrwyth, yn ogystal â dail palmwydd, coronau, ffenestri gwydr lliw, a lluniau sticeri o'r Swper Olaf. Aeth pob plentyn â bag adre yn cynnwys rhagor o weithgareddau a llyfr lluniau yn dweud stori'r Pasg.

Bydd y sesiwn nesaf bnawn Sul, 8 Mai am 3.30 yn Neuadd y Pentre – croeso cynnes i bawb. Cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi, blant!



Ffŵl Ebrill?

A sylwoch chi ar yr erthygl Ffŵl Ebrill yn rhifyn mis diwetha'r Llais? Os na wnaethoch chi, doeddech chi ddim ar eich pen eich hun. Credodd sawl un y stori yma, gan gynnwys rhai o dîm y *Llais*!

Mae'n briodol bod diwrnod Ffŵl Ebrill yn tarddu o ŵyl Hilaria yr hen Rufain, oherwydd mae'n rhaid i mi gyfadde nad oes tref goll Rufeinig o'r enw Dyrniniwm (ymddiheuriadau i'r Gymdeithas Hanes!) Er bod Steve a Harry â'u peiriannau chwilio am fetel wedi bod yn chwilio'n drylwyr yn y cae gyferbyn â thafarn y Kinmel, doedd dim darnau arian yno – dim ond cyfflinc a dimai hen iawn. Ond roedden nhw wedi mwynhau eu hymweliad o Lannau Merswy – dyma lun o'u 'trysor'.

Gwen Butler



CARPET SALES & INSTALL

Home Choose Carpets

Quality Sampling Service

FREE Estimates

CARPET & RUG CLEANING

Call Andy

07900 907253

wetordrycarpetcleaning.com

Rysait

Dw i wrth fy modd gyda sinsir! Mae'n dda iawn i'r iechyd hefyd. Mae'n gallu lliniaru'r canlynol: **y bol yn chwyddo a gwynt** – gall bwyta sinsir lleihau achosion o ormodedd o wynt yn y perfedd;

traul ar gelloedd – mae gwrthocsidyddion mewn sinsir sy'n helpu i reoli'r cyfansoddion (*compounds*) sy'n gallu gwneud difrod i gelloedd pan maen nhw'n mynd yn rhy niferus;

cyfog – mae sinsir yn gallu helpu i leihau teimlo'n gyfogyd mewn achosion o salwch môr a salwch y bore. Hefyd gall wella teimladau o gyfog yn ystod cemotherapi heb sgilleffeithiau meddygaeth gwrth-gyfog. Mae'n bosib hefyd ei fod yn **wrthlidiol** (*anti-inflammatory*) ac mae astudiaethau ar y gweill i weld a yw'n helpu cyflyrau fel y gwynegon a llid ar yr ysgyfaint.

Felly rhowch gynnig ar rysait sy'n cynnwys sinsir.

Bisgedi sinsir ysgafn

Cynhwysion:

250g menynd wedi'i feddalu

110g siwgr eisin

85g powdwr cwstard

250g blawd codi

1 llwy de sinsir mâl (*ground ginger*)

40g gwreiddyn sinsir (*stem ginger*)

Dull:

Curwch yr hufen, wedyn curwch y powdwr cwstard, blawd a'r sinsir mâl i mewn iddo.

Torrwch y gwreiddyn sinsir yn fân a'i guro i'r cymysgedd.

Rhannwch y toes yn 28 pelen fach. Rhowch nhw ar ddau hambwrdd pobi, gyda digon o le rhyngddynd nhw, gwasgwch nhw gyda fforc i'w gwneud yn fflat.

Pobwch nhw ar 180 °C (160 °C popty â ffan) am 10–15 munud nes eu bod nhw'n lliw euraid ond heb fod yn frown.

Dewisiadau eraill yn lle sinsir:

Heb flas ychwanegol

Croen 1 lemon

50g darnau bach o siocled

Catherine Howarth

Gair gan yr offeiriad

Mae'n gryn fraint i fod yn ficer, offeiriad, rheithor, bugail, gweinidog (neu beth bynnag yr hoffech chi ein galw ni...) dros y pentrefi yn yr ardal hyfryd hon. Mewn ardaloedd dinesig, mae cymuned glos a phawb yn adnabod ei gilydd yn beth anghofiedig.

Yn y flwyddyn eglwysig, rydyn ni yng nghanol tymor y Pasg, sy'n ymestyn drwy gydol mis Mai, gan newid ar 5 Mehefin pan fyddwn yn cyrraedd y Pentecost.



(Llun: Ardal Cenhadu Dinbych)

I ddathlu'r Pasg, daeth llawer ohonon ni ynghyd ar doriad gwawr yng nghastell Dinbych. Roedd y darlleniad y bore hwnnw yn dod o'r Efengyl yn ôl Ioan, pennod 20, 1–18, ac fe'i clywyd yn y castell ac ym mhob eglwys yn ein hardal. Chwiliwch amdano ar eich ffôn – fe gewch hyd iddo mewn dim os hoffech chi ei ddarllen, neu ewch i nôl Beibl.

Yn ei galar, mae Mair Magdalen yn cymryd cryn dipyn o amser i sylweddoli nad yw Iesu wedi marw, ac nad oes neb wedi dwyn ei gorff na'i symud. Iesu yn dweud ei henw sy'n gwneud iddi sylweddoli mai ef sydd yno. Wrth gwrs, mae ein lleisiau ni i gyd yn unigryw. Rydyn ni'n ymwybodol o hyn gan fod ein lleisiau, fel ein hwynebaw, yn gallu cael ei defnyddio mewn technoleg fodern fel modd o'n hadnabod mewn system diogelwch.

Mae dwyster yr eiliad hon yn anhygoel. Wrth ddarllen am fywyd Iesu Grist ar adegau gwahanol, rydyn ni'n ymwybodol bod

perthynas ddofn iawn wedi bod rhwng Iesu a Mair Magdalen. Wrth i Iesu ddweud enw Mair, mae'n anodd hefyd peidio â chredu mai Iesu, garddwr yr holl greadigaeth ac yn ddwyfol ar ôl goresgyn marwolaeth, yw Duw mewn gwirionedd. Mae Duw yn ein hadnabod ni yn well na ni ein hunain, yn well na'n perthnasau agos – hyd yn oed y rheini sydd wedi gofalu amdanon ni ers ein plentyndod.

Mae Duw yn ei natur bythol yn cofleidio amser ac yn ein hadnabod ni ar unrhyw adeg yn ein taith trwy fywyd.

Felly mae'n bleser bod yma gyda chi yn yr ardal hon ac addoli a gweddïo gyda Christnogion eraill sy'n dymuno'r gorau i chi, eu cymydog, yn y bywyd da hwn.

Boed i fis Mai ddod â llawenydd i chi wrth i ni barhau â'n bywydau drwy'r holl anawsterau mae'n tueddu i'w rhoi o'n blaenau. Ac yn bennaf oll, bendith arnoch, gan wybod bod pobl yn teithio milltiroedd i gael cip ar y prydfferthwch rydyn ni'n byw yn ei blith bob diwrnod.

*Martin Pritchard,
Offeiriad Ardal Cenhadu Dinbych*



Y Parchn Martin Pritchard (canol) a Jane Finn wedi iddyn nhw gael eu trwyddedu i wasanaethu Ardal Cenhadu Dinbych, gan Archddiacon esgobaeth Llanelwy, yr Hybarch Andy Grimwood (chwith).

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan. Codwyd £400, swm anrhydeddus iawn!

Cyngor Cymuned Llandyrnog

Trafodwyd y materion canlynol yng nghyfarfod mis Ebrill:

- ◆ Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru i ni mai dim ond un digwyddiad gafodd ei riportio yn ystod y mis diwetha – rhywun yn dwyn metel sgrap o hen safle Arla. Mae'r heddlu yn gwneud ymholiadau, diolch i gymdogion a gafodd luniau a oedd yn cynnwys rhifau cofrestru cerbydau.
- ◆ Etholiad 5 Mai – ni fydd etholiad ar gyfer y Cyngor Cymuned. Mae naw o'r aelodau presennol wedi penderfynu aros ar y cyngor a bydd aelod newydd yn cael ei groesawu yng nghyfarfod mis Mai. Rhagor o fanylion i ddilyn. Mae'r Cynghorwyr A. Rowley Williams a Dr Peter Gore Rees wedi penderfynu peidio â sefyll eto.
- ◆ Nid oes neb wedi ymateb i'r hysbyseb am rywun i lanhau'r Ystafelloedd Coco. Penderfynwyd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a holi hwn a'r llall.
- ◆ Coeden jiwbilî – penderfynwyd gofyn a fyddai'r Cyngor Sir yn ystyried plannu coeden yn ardal Llangwyfan, efallai yng nghyffiniau cilfan y White House.
- ◆ Cynllunio – mae cais diwygiedig wedi'i gyflwyno ynglŷn â'r tir ger Maes Llan. Fodd bynnag, dydy'r diwygiadau ddim yn mynd i'r afael â phryderon y Cynghorwyr Cymuned ynghylch diogelwch ar y ffordd, y cymysgedd o fathau o dai, na phroblemau dŵr yn casglu ar y ffordd. Felly roedd y Cyngor Cymuned yn methu cefnogi'r cais diwygiedig.
- ◆ Y pafiliwn chwaraeon – cefnogodd y Cyngor Cymuned newid yn y les er mwyn caniatáu cyflwyno cais cynllunio i ymestyn y pafiliwn.
- ◆ Arolwg o anghenion y gymuned – penderfynwyd cysylltu â Chadwyn Clwyd i weld faint byddai cost arolwg o anghenion y gymuned ac a fyddai'n bosibl rhannu'r gost.
- ◆ Eisteddfod yr Urdd – penderfynwyd prynu baneri a *bunting* i groesawu ymwelwyr i Eisteddfod yr Urdd, a fydd yn digwydd ar gaeau fferm Kilford, 30 Mai tan 4 Mehefin.

Hadau gobaith

Eleni bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru mewn partneriaeth â Hadau Gobaith dros Gyfiawnder Hinsawdd, Cymorth Cristnogol yn gobeithio codi £250,000 ar gyfer ymdrech apêl arbennig i helpu pobl tlawd a bregus yn Kenya a Honduras. I godi ymwybyddiaeth ymysg yr aelodau am yr apêl, bydd y Parch. Evan Morgan, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn ymweld â 14 Henaduriaeth yng Nghymru a Chilgwri a cherdded tua 5k ym mhob ardal.

Dydd Gwener 1af Ebrill, ymwelodd y Parch. Evan â Dyffryn Clwyd. Cychwynnodd ei daith o Gapel y Dyffryn gyda chyfeillion, a dilyn Llwybr Tyrnog hyd at Langwyfan, heibio cofeb Tŷ Modlen (1749). Yma roedd bwthyn to gwellt, cartref Magdalen Pierce a'r teulu. Modlen, fel y'i gelwid, oedd y cyntaf i agor ei chartref i'r Methodistiaid Calфинаidd yn Nyffryn Clwyd yn 1749. Cynhaliwyd gwasanaethau rheolaidd ar yr aelwyd hyd nes bod y capel cyntaf yn cael ei adeiladu yn 1777 yng Nghefn Bithel, ar y ffordd i Bodfari. Gan fod yr adeilad hwn yn mynd yn rhy fach i'r aelodau, adeiladwyd Capel y Dyffryn yn 1836.

Yna teithiwyd heibio hen Ysbyty Llangwyfan gan ymweld ag Eglwys St Cwyfan. Mwynhaodd pawb de a chacennau yn festri Capel y Dyffryn ar ddiwedd y daith.

Am ragor o wybodaeth am yr apêl a thaith y llywydd, ewch i <https://www.ebcpcw.cymru/cy/taith-y-llywydd/>.



Y Parch. Evan Morgan (trydydd o'r chwith yn y rhes gefn) yng nghwmni cerddwyr o Landyrnog, Dinbych a Phrestatyn.